

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration	1
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Questions to the Minister for Economic Development and Transport	3
Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau Heblaw am Fusnes Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business	5

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration

Gwneud hi'n Haws i Bobl sydd wedi Colli eu Golwg gael Tai Making Housing more Accessible for People with Sight Loss

Q10 John Griffiths: What is the Welsh Assembly Government doing to make housing more accessible for people with sight loss? OAQ0482(SJR)

C10 John Griffiths: Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i'w gwneud hi'n haws i bobl sydd wedi colli eu golwg gael tai? OAQ0482(SJR)

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): The Assembly Government has funded the Royal National Institute of the Blind Cymru and the joint mobility unit access partnership to produce guides to building new homes and adapting existing homes for people with sight problems. Assistance for adaptations is also available through disabled facilities grants.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion, Cymru a phartneriaeth mynediad uned symudedd ar y cyd i gynhyrchu canllawiau i adeiladu tai newydd ac addasu tai presennol ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg. Mae cymorth ar gyfer addasu tai ar gael hefyd drwy grantiau cyfleusterau ar gyfer pobl anabl.

*Tynnwyd cwestiwn 11, OAQ0516(SJR), yn ôl.
Question 11, OAQ0516(SJR), was withdrawn.*

Digartrefedd yng Nghymru Homelessness in Wales

Q12 Leanne Wood: Will the Minister make a statement on the level of homelessness in Wales? OAQ0483(SJR)

C12 Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel digartrefedd yng Nghymru? OAQ0483(SJR)

Edwina Hart: Homelessness has increased across Wales and the rest of the UK over the past five years. Recent figures indicate a levelling off in this trend. We will continue to work with local authorities to achieve a sustained reduction in homelessness, as set out in the national homelessness strategy.

Edwina Hart: Mae digartrefedd wedi cynyddu ledled Cymru a gweddill y DU yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Awgryma ffigurau diweddar fod y duedd hon yn gwastatáu. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i gyflawni gostyngiad parhaol mewn digartrefedd, fel y nodir yn y strategaeth genedlaethol ar ddigartrefedd.

Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn Nyffryn Clwyd Home Energy Efficiency Scheme in the Vale of Clwyd

Q13 Ann Jones: Will the Minister make a statement on the uptake of the home energy efficiency scheme in the Vale of Clwyd? OAQ0471(SJR)

C13 Ann Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau ymuno â'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yn Nyffryn Clwyd? OAQ0471(SJR)

Edwina Hart: The home energy efficiency scheme has been in operation in Wales for over five years. Over this period 2,000 households in the Vale of Clwyd have received assistance under the scheme at a cost of approximately £2.2 million. This has allowed over 5,200 energy efficiency measures to be provided.

Edwina Hart: Bu'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yn weithredol yng Nghymru am dros bum mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd 2,000 o gartrefi yn Nyffryn Clwyd gymorth o dan y cynllun am gost o tua £2.2 filiwn. Darparwyd dros 5,200 o fesurau effeithlonrwydd ynni yn sgîl hyn.

Y Mynegai Amddifadedd Lluosog Newydd The New Index of Multiple Deprivation

Q14 Jeff Cuthbert: Will the Minister make a statement about the implications for the Caerphilly constituency of the new index of multiple deprivation? OAQ0463(SJR)

C14 Jeff Cuthbert: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau'r mynegai amddifadedd lluosog newydd ar etholaeth Caerffili? OAQ0463(SJR)

Edwina Hart: The new index contains much detailed information. I will not take any rushed decisions that will have implications for Assembly Government policies such as Communities First. I have written to Communities First partnerships seeking their views by 14 February and will then draw up proposals on which we shall consult.

Edwina Hart: Mae'r mynegai newydd yn cynnwys llawer o wybodaeth fanwl. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw benderfyniad brysiog a fydd yn effeithio ar bolisiâu Llywodraeth y Cynulliad fel Cymunedau yn Gyntaf. Yr wyf wedi ysgrifennu at bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i ofyn am eu barn erbyn 14 Chwefror, ac yna byddaf yn llunio cynigion cyn ymgynghori arnynt.

Gwasanaethau Triniaethau Cyffuriau yng Nghymru Drug Treatment Services in Wales

Q15 Brynle Williams: Will the Minister make a statement on drug treatment services in Wales? OAQ0504(SJR)

C15 Brynle Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau triniaethau cyffuriau yng Nghymru? OAQ0504(SJR)

Edwina Hart: Since 2002-03, the substance

Edwina Hart: Ers 2002-03, mae'r gronfa

misuse action fund has increased by £15 million, which has resulted in just under 4,500 additional treatment places.

gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau wedi cynyddu £15 miliwn, ac arweiniodd hynny at ychydig llai na 4,500 o leoedd ychwanegol i drin pobl.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Questions to the Minister for Economic Development and Transport

Datblygiad Economaidd y Gogledd The Economic Development of North Wales

Q8 Janet Ryder: Will the Minister make a statement on the economic development of north Wales? OAQ0600(EDT)

C8 Janet Ryder: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygiad economaidd y gogledd? OAQ0600(EDT)

The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies): The strength of the north Wales economy reflects the success of our policies. Since 2001, the number of people in employment in the region has increased by 6.4 per cent.

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies): Mae cryfder economi'r gogledd yn adlewyrchu llwyddiant ein polisiau. Ers 2001, mae nifer y bobl sydd mewn gwaith yn y rhanbarth wedi cynyddu 6.4 y cant.

Gweithgarwch Entrepreneuriaidd Entrepreneurial Activity

Q9 Denise Idris Jones: What action has the Welsh Assembly Government taken to encourage greater entrepreneurial activity in Wales? OAQ0560(EDT)

C9 Denise Idris Jones: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cymryd i annog mwy o weithgarwch entrepreneuriaidd yng Nghymru? OAQ0560(EDT)

Andrew Davies: Our strategic framework for economic development 'Wales: A Vibrant Economy' sets out our vision for realising the full potential of the economy. Its key themes include establishing an even stronger entrepreneurial environment focused on individuals and businesses with growth potential, building on the success of the entrepreneurship action plan.

Andrew Davies: Mae ein fframwaith strategol ar gyfer datblygu economaidd, 'Cymru: Economi yn Ffynnu', yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer gwireddu potensial llawn yr economi. Mae ei brif themâu yn cynnwys datblygu amgylchedd entrepreneuriaidd cryfach byth sy'n canolbwyntio ar unigolion a busnesau sy'n fwy tebygol o ddatblygu, gan adeiladu ar lwyddiant y cynllun gweithredu entrepreneuriaidd.

Seilwaith Trafnidiaeth y Canolbarth a'r Gorllewin Transport Infrastructure in Mid and West Wales

Q10 The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): Will the Minister make a statement on his plans to invest in the transport infrastructure in mid and west Wales? OAQ0572(EDT)

C10 Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynlluniau i fuddsoddi yn seilwaith trafndiaeth y canolbarth a'r gorllewin? OAQ0572(EDT)

Andrew Davies: I set out our transport plans when I announced the outcome of my transport review in December 2004. The £8

Andrew Davies: Nodais ein cynlluniau trafndiaeth pan gyhoeddais ganlyniad fy adolygiad o drafndiaeth ym mis Rhagfyr

billion, 15-year transport programme is designed to increase the speed of delivery on transport, support the development of the Welsh economy and help to spread prosperity throughout Wales.

2004. Amcan y rhaglen drafnidiaeth 15 mlynedd hon, sy'n werth £8 biliwn, yw mynd â'r maen i'r wal yn gynt ym maes trafnidiaeth, hybu datblygiad economi Cymru a helpu i ledaenu ffyniant drwy Gymru.

Ffigurau Gwerth Ychwanegol Crynswth Rhanbarthol 2004 The 2004 Regional Gross Value Added Figures

Q11 Alun Cairns: Will the Minister make a statement on the 2004 regional gross value added figures? OAQ0579(EDT)

C11 Alun Cairns: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ffigurau gwerth ychwanegol crynswth rhanbarthol 2004? OAQ0579(EDT)

Andrew Davies: Headline gross value added in Wales in 2004 was £39.2 billion, according to the latest estimates published by National Statistics. This represents a 5.0 per cent increase on the previous year, compared to a 4.6 per cent increase for the UK as a whole, excluding extra regio.

Andrew Davies: Yn ôl yr amcangyfrifon diweddaraf a gyhoeddwyd gan Ystadegau Gwladol, y prif werth ychwanegol crynswth yng Nghymru yn 2004 oedd £39.2 biliwn. Mae hwn yn gynnydd o 5.0 y cant ers y flwyddyn flaenorol, o gymharu â chynnydd o 4.6 y cant ar gyfer y DU yn gyffredinol, ac eithrio rhanbarthau ychwanegol.

Prinder Sgiliau yng Ngweithlu Cymru Skill Shortages in the Welsh Workforce

Q12 Peter Black: Will the Minister make a statement on skill shortages in the Welsh workforce? OAQ0618(EDT)

C12 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brinder sgiliau yng ngweithlu Cymru? OAQ0618(EDT)

Andrew Davies: According to the Future Skills Wales 2005 sector skills survey, only 4 per cent of establishments reported having skill shortage vacancies, equivalent to some 5,400 vacancies, down from 7 per cent in 2003. Some 18 per cent of establishments reported having a skills gap in their workforce, representing some 64,000 employees, or around 6 per cent of employees in Wales.

Andrew Davies: Yn ôl arolwg sgiliau sector 2005 Sgiliau Dyfodol Cymru, dim ond 4 y cant o sefydliadau a nododd fod ganddynt swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau, sef tua 5,400 o swyddi gwag, o'i gymharu â 7 y cant yn 2003. Nododd 18 y cant o sefydliadau fod ganddynt brinder sgiliau yn eu gweithlu, sy'n cynrychioli tua 64,000 o gyflogeion, neu tua 6 y cant o gyflogeion yng Nghymru.

Twf y Diwydiannau Gweithgynhyrchu yng Nghymru yn ystod 2006 The Growth of Manufacturing Industries in Wales during 2006

Q13 William Graham: Will the Minister outline his assessment of the growth of manufacturing industries in Wales during 2006? OAQ0580(EDT)

C13 William Graham: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei asesiad ar gyfer twf y diwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru yn ystod 2006? OAQ0580(EDT)

Andrew Davies: I refer the Assembly Member to the answer I gave to WAQ44678 on 10 November 2005. Manufacturing growth will be inextricably linked to the ability of Welsh companies to compete globally, which the Assembly Government seeks to support through a wide range of

Andrew Davies: Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddais i WAQ44678 ar 10 Tachwedd 2005. Mae cysylltiad annatod rhwng twf mewn gweithgynhyrchu a gallu cwmnïoedd Cymru i gystadlu'n fyd-eang, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio cefnogi hyn drwy ystod eang o raglenni yn ei

programmes in its economic development agenda. *hagenda datblygu economaidd.*

**Ffigurau Gwerth Ychwanegol Crynswth (Canol De Cymru)
Gross Value Added Figures (South Wales Central)**

Q14 Leanne Wood: Will the Minister make a statement on the recently released gross value added figures for South Wales Central? OAQ0599(EDT)

C14 Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ffigurau gwerth ychwanegol crynswth a ryddhawyd yn ddiweddar ar gyfer Canol De Cymru? OAQ0599(EDT)

Andrew Davies: There are no official gross value added estimates for South Wales Central. Total headline GVA across the central Valleys—Rhondda Cynon Taf and Merthyr Tydfil—and Cardiff and the Vale of Glamorgan in 2003 was £11.2 billion. This represents a 6.3 per cent increase on the previous year.

Andrew Davies: Nid oes amcangyfrifon swyddogol o werth ychwanegol crynswth ar gael ar gyfer Canol De Cymru. Cyfanswm prif werth ychwanegol crynswth yn y Cymoedd canol—Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful—a Chaerdydd a'r Fro yn 2003 oedd £11.2 biliwn. Mae hwn yn gynydd o 6.3 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ596(EDT), yn ôl.
Question 15, OAQ596(EDT), was withdrawn.*

**Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau Heblaw am Fusnes
Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for
Business**

**Blaenoriaethau Allweddol y Chwe Mis Nesaf
Key Priorities for the Next Six Months**

Q10 Nick Bourne: Will the Minister identify her key priorities for the next six months? OAQ0159(BM) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

C10 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog nodi ei blaenoriaethau allweddol ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ0159(BM) *Transferred for written answer.*

The Business Minister (Jane Hutt): I have just outlined my priorities as Minister with responsibility for children. My other priorities will be a draft equality strategy and independent equality audit, work on new disability and gender duties, and ensuring that the new, merged organisation deals with communication and freedom of information requests appropriately.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Yr wyf newydd amlinellu fy mlaenoriaethau fel Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros blant. Bydd fy mlaenoriaethau eraill yn cynnwys llunio strategaeth cydraddoldeb ddrafft ac archwiliad annibynnol o gydraddoldeb, gwaith ar ddyletswyddau newydd yn ymwneud ag anabledd a rhyw, a sicrhau bod y sefydliad newydd, sydd wedi ei uno yn delio'n briodol â cheisiadau yn ymwneud â chyfathrebu a rhyddid gwybodaeth.

*Atebwyd cwestiynau 11 a 12, OAQ0169(BM) ac OAQ0161(BM) yn y Cyfarfod Llawn.
Questions 11 and 12, OAQ0169(BM) and OAQ0161(BM), were answered in Plenary.*

**Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd
Disability Discrimination Act**

Q13 Peter Black: Will the Minister make a statement on how the Welsh Assembly Government is promoting the Disability Discrimination Act among small businesses in Wales? OAQ0175(BM)

Jane Hutt: Responsibility for the Disability Discrimination Act and its implementation ultimately rests with the Department for Work and Pensions. The Welsh Assembly Government and its agencies are actively encouraging, through good practice and awareness raising, compliance with the legislation.

C13 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ymhlith busnesau bach yng Nghymru? OAQ0175(BM)

Jane Hutt: Cyfrifoldeb yr Adran Gwaith a Phensiynau yw gweithredu'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn bennaf. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i hasiantaethau yn annog cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth drwy arfer da a chodi ymwybyddiaeth.

Cyfleoedd Cyflogaeth Gyfartal Equal Employment Opportunities

Q14 Lynne Neagle: Will the Minister make a statement on equal employment opportunities for people with learning disabilities in Wales? OAQ0176(BM)

Jane Hutt: The Welsh Assembly Government works closely with Jobcentre Plus to ensure that the delivery of the UK Government's welfare to work programmes, which includes the New Deal for disabled people, provides opportunities for all those seeking employment, including people with learning difficulties, to enter work. The Assembly Government has set out service principles for adults with a learning disability and the responses that local and health authorities should adopt.

C14 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfleoedd cyflogaeth gyfartal ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru? OAQ0176(BM)

Jane Hutt: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n agos gyda Chanolfan Byd Gwaith i sicrhau bod rhaglenni o fudd-dal i waith Llywodraeth y DU, sy'n cynnwys y Fargen Newydd ar gyfer pobl anabl, yn rhoi'r un cyfleoedd i bawb sy'n ceisio cyflogaeth, gan gynnwys pobl ag anawsterau dysgu, i ddechrau gweithio. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi'r egwyddorion o ran gwasanaeth ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu ynghyd â'r ymatebion y dylai awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol eu mabwysiadu.

Mynediad ar gyfer Pobl Anabl i Fusnesau Bach Disabled Access to Small Welsh Businesses

Q15 Peter Black: Will the Minister make a statement on how the Welsh Assembly Government is promoting disabled access to small Welsh businesses? OAQ0174(BM)

Jane Hutt: The Disability Rights Commission provides advice and information to disabled people, employers and service providers on both the Disability Discrimination Act and general disability issues, including the extended provisions contained in the Disability Discrimination Act 2005.

C15 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo mynediad ar gyfer pobl anabl i fusnesau bach yng Nghymru? OAQ0174(BM)

Jane Hutt: Mae Comisiwn Hawliau Anabledd yn rhoi cyngor a gwybodaeth i bobl anabl, cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau ar y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a materion cyffredinol yn ymwneud ag anableddau, gan gynnwys y darpariaethau estynedig sydd wedi'u cynnwys yn Ndedf Gwahaniaethu ar sail

Anabledd 2005.